# Ysgol Llanhari

Pennaeth | Headteacher:
**Mrs Meinir Thomas**

Llanhari, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf, CF72 9XE
☏ 01443 237824 | 🖷 01443 227365 | post@llanhari.com
**www.llanhari.com**

27ain o Hydref 2022

Annwyl Rieni / Ofalwyr

Ar ddiwedd fy hanner tymor cyntaf fel Pennaeth ar Ysgol Llanhari, hoffwn ddiolch yn fawr i staff a disgyblion yr ysgol am sicrhau bod yr hanner tymor cyntaf yma wedi bod yn dymor llwyddiannus, llawn bwrlwm. Bu'n bleser gweld ymateb y disgyblion. Diolch i chi hefyd fel rhieni am eich cefnogaeth barhaus.

Mae'r disgyblion cynradd ac uwchradd wedi ymroi i weithgareddau amrywiol o fewn y dosbarth ac yn allgyrsiol ac rwy'n ddiolchgar i'r athrawon am yr holl gyfleoedd sy'n cael eu cynnig i gyfoethogi profiadau disgyblion Ysgol Llanhari. Fel y gwyddoch, mae'r adran gynradd a blwyddyn 7 yn dilyn y Cwricwlwm Newydd i Gymru ac mae hyn wedi esgor ar ystod newydd o brofiadau i'ch plant. Mae ein gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm i'w gweld ar wefan yr ysgol.

Braf iawn fu croesawu rhai ohonoch fel rhieni i'r ysgol yn ystod yr hanner tymor. Er bod y nosweithiau cynnydd yn parhau ar *Schoolcloud*, byddwn yn trefnu nosweithiau i rieni bob blwyddyn ysgol i ymweld â ni ar gyfnod penodol yn ystod y flwyddyn. Estynnir y gwahoddiad nesaf i rieni'r adran gynradd a blwyddyn 7 i noson gwricwlwm ar nos Fercher y 9fed o Dachwedd.

Dymunwn yn dda i ddisgyblion blwyddyn 11 a fydd yn sefyll arholiadau TGAU Cymraeg Iaith yn ystod y bythefnos gyntaf ar ôl hanner tymor. Cyn diwedd y bythefnos, cynhelir Diwrnod Blas ar y 6ed lle bydd cyfle i ddisgyblion blwyddyn 11 dreulio diwrnod fel disgyblion blwyddyn 12 yn mwynhau blas ar wersi a hefyd yn dysgu am fywyd yn y chweched dosbarth yn Llanhari.

Yr wythnos hon, cynhaliwyd diwrnod arbennig i gofio am Gwenllian Pugh, ein cyn-ddisgybl a fu farw ym mis Medi. Trefnwyd y gweithgareddau gan ddisgyblion blwyddyn 12 a llwyddwyd i gasglu dros £1000 tuag at elusen *To Wish Upon a Star.* Diolch o galon i chi am eich cyfraniadau hael. Rydym yn ddiolchgar iawn hefyd i rieni yr adran gynradd am y rhoddion i'r banc bwyd lleol. Trosglwyddwyd y nwyddau gan Miss Rowlands a'r Llysgenhadon yr wythnos hon – 187 kilo i gyd!

Rydym wedi bod yn diwygio ein polisi ymddygiad cadarnhaol yn ystod yr hanner tymor yma yn yr adran uwchradd ac mae ymateb y disgyblion wedi bod yn wych. Byddwn hefyd yn treialu'r addasiadau i'r polisi yn yr adran gynradd ar ôl hanner tymor. Rwy'n ddiolchgar iawn i Mr Marc Evans, Dirprwy Bennaeth Gweithredol am arwain ar hyn ac fe welwyd effaith gadarnhaol ar agwedd y disgyblion at ddysgu yn ystod yr hanner tymor. Byddwn yn treialu mwy ar ein defnydd o *Classcharts* yn yr adran uwchradd yn ystod yr hanner tymor nesaf ac yn addasu lle bo angen ac cyn defnyddio mwy ohono yn yr adran gynradd.

Diolch yn fawr i Ffrindiau Llanhari am drefnu digwyddiad Calan Gaeaf llwyddiannus ar nos Iau olaf y tymor ac i aelodau o'r chweched dosbarth am eu cymorth gyda'r gweithgareddau. Bydd cyfarfod nesaf Ffrindiau Llanhari nos Iau y 10fed o Dachwedd am 5 o'r gloch yn yr ysgol. Mae croeso i aelodau newydd. Y digwyddiad nesaf fydd disgo i flynyddoedd 7 ac 8 ar y 1af o Ragfyr.

Yn olaf, hoffwn dynnu eich sylw at y diweddaraf o ran rheoliadau *Covid* gan Lywodraeth Cymru. *Mae'r llywodraeth wedi cadarnhau nad oes angen i'r cyhoedd a phlant brofi am Covid hyd yn oed os ydyn nhw'n sâl. Dim ond disgyblion a staff mewn lleoliadau addysgol arbennig sydd â symptomau a ddylai bod yn profi, ac felly dim ond yr unigolion yma a ddylai hunanynysu.* ***Mae cyngor pellach i blant yma:***
Canllawiau i bobl sydd â symptomau haint anadlol, gan gynnwys COVID-19 | LLYW.CYMRU

Dymunaf wyliau hanner tymor braf i bob un aelod o Deulu Llanhari.

Yn gywir

Mrs Meinir Thomas
Pennaeth

Ysgol Llanhari

Pennaeth | Headteacher:
**Mrs Meinir Thomas**

Llanhari, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf, CF72 9XE
01443 237824 | 01443 227365 | post@llanhari.com
www.llanhari.com

27th of October 2022

Dear Parent / Carer

At the end of my first half term as Headteacher of Ysgol Llanhari, I would like to express my sincere gratitude to the school's staff and pupils for ensuring that this first half term has been a successful, busy term. It has been a pleasure to witness the pupils' positive engagement with school life. Thank you too to you as parents for your continued support.

The primary and secondary pupils have enjoyed various activities in class and also extra- curricular opportunities and I am grateful to the teachers for all they are offering to enrich the experiences of the pupils of Ysgol Llanhari. As you are aware, the primary department and year 7 are following the New Curriculum for Wales and this has resulted in a new range of experiences for your children. Our vision for the curriculum can be seen on the school's website.

It was a pleasure to welcome some of you as parents to the school during the half term. Although the progress evenings continue on *Schoolcloud*, we will organize evenings for parents of every school year to visit us at a certain period during the year. The next event will be held for parents of the primary department and year 7 on Wednesday 9th of November. This is an opportunity to learn more about our curriculum.

We wish our year 11 pupils well. They will be sitting GCSE Welsh Language exams during the first two weeks after half term. Before the end of the two weeks, a Sixth form Taster Day will be held where year 11 pupils will have the opportunity to spend a day as year 12 pupils enjoying a taste of lessons and also learning about life in the sixth form in Llanhari.

This week, a special day was held to remember Gwenllian Pugh, our former pupil who passed away in September. The activities were organized by year 12 pupils and they succeeded in collecting over £1000 towards the *To Wish Upon a Star* charity. Thank you all for your generous contributions. We are also very grateful to the parents of the primary department for your donations to the local food bank. The goods were handed over by Miss Rowlands and the Ambassadors this week - 187 kilos in all!

We have been revising our positive behaviour policy during this half term in the secondary department and the pupils' response has been fantastic. We will also trial the modifications to the policy in the primary department after half term. I am very grateful to Mr Marc Evans, Acting Deputy Headteacher for leading on this and consequently this policy has had a positive effect on the pupils' attitude to learning during the half term. We will be adapting our use of Classcharts in the secondary department during the next half term and changing where necessary, before introducing more aspects of it in the primary department.

Many thanks to Ffrindiau Llanhari for organizing a successful Halloween event on the last Thursday night of the term and to members of the sixth form for their help with the activities. The next meeting of Ffrindiau Llanhari will be on Thursday the 10th of November at 5 o'clock in the school. New members are welcome. The next event will be a disco for years 7 and 8 on the 1st of December. Finally, I would like to draw your attention to the latest news regarding the Covid regulations from the Welsh Government.

The government has confirmed that the public and children do not need to be tested for Covid even if they are ill. Only pupils and staff in special educational settings who have symptoms should be testing, and therefore only these individuals should self-isolate. Further advice for children is here:

Guidance for people with symptoms of a respiratory infection, including COVID-19 | GOV.WALES

I would like to wish every member of Teulu Llanhari a happy and restful half term holiday.

Yours sincerely

Mrs Meinir Thomas
Headteacher